**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED A TAI**
**DYDD MERCHER, 6 MAWRTH 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 6 Mawrth 2024.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Helen Brown (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Pam Banks, Gillian Brockley, Tina Claydon, Geoff Collett, Rosetta Dolphin, David Evans, Dennis Hutchinson, Ted Palmer, Kevin Rush a Linda Thew

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Rob Davis (ar ran Dale Selvester)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Allan Marshall a Billy Mullin yn bresennol fel arsylwyr

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Cludiant Rhanbarthol); Y Cynghorydd Sean Bibby (Aelod Cabinet Tai ac Adfywio); Y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau); Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal; Rheolwr Gwasanaeth (Asedau Tai) a'r Rheolwr Busnes

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg

## 76. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorydd Ted Palmer gysylltiad personol fel Tenant y Cyngor.

## 77. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Waith bresennol i'w hystyried gan sôn am y diwygiadau canlynol a oedd wedi'u gwneud ers y cyfarfod diwethaf:-

- Ychwanegwyd yr adroddiad 'Gyda'n gilydd fe allwn ni' – Cydnerthedd a Hunanddibyniaeth Cymunedau at y Rhaglen Waith ar gyfer y cyfarfod ar 12 Mehefin.

Mewn perthynas â chamau heb eu cwblhau o'r cyfarfodydd blaenorol, dywedodd yr Hwylusydd bod llythyr yn gofyn, ar lefel genedlaethol, i Lywodraeth Cymru (LlC) annog rhieni i barhau i wneud cais am Brydau Ysgol am Ddim wedi cael ei anfon i Lywodraeth Cymru ac y byddai copi o'r ymateb yn cael ei ddosbarthu ar ôl ei dderbyn. Roedd yr holl gamau a oedd yn ymwneud â'r Gofrestr Tai Cyffredin (Un Llwybr Mynediad at Dai - ULlMaD) wedi cael eu cwblhau.

Cytunodd yr Hwylusydd i ddosbarthu copi o'r llythyr a anfonwyd i Lywodraeth Cymru, at yr Aelod Cabinet yn dilyn y cyfarfod.

Cynigiodd y Cynghorydd Ted Palmer dderbyn yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliodd y Cynghorydd Kevin Rush y cynnig hwnnw.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Waith.

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; ac

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu heb eu cwblhau.

## 78. ADRODDIAD ARCHWILIO CYMRU: GWASANAETHAU DIGARTREFEDD – CYNGOR SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) adroddiad a oedd yn amlinellu proses yr adolygiad gan Archwilio Cymru ac yn rhannu'r canfyddiadau yn eu hargymhellion ar gyfer y Cyngor ynglŷn â'r dull lleol ar gyfer digartrefedd. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu ymateb y Cyngor i'r argymhellion hynny.

Amlinellodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal broses adolygu Archwilio Cymru a oedd yn cynnwys adolygu dogfennau, cyfweliadau gydag uwch swyddogion allweddol ac Aelodau Etholedig, a grwpiau ffocws gyda staff rheng flaen sy'n uniongyrchol gysylltiedig â darparu gwasanaethau digartrefedd. Roedd canfyddiadau cyffredinol yr arolwg fel a ganlyn: roedd y Cyngor yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel, ond nid oedd hyn yn gynaliadwy gyda'r lefel bresennol o gyllid.

Amlinellodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal y tri argymhelliad ar gyfer y Cyngor yn dilyn yr adolygiad o Wasanaethau Digartrefedd yn Sir y Fflint, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Roedd ymateb y Cyngor i adroddiad Archwilio Cymru a'r tri argymhelliad ynghlwm wrth Atodiad 2 yr adroddiad.

Canmolodd yr Aelod Cabinet Tai ac Adfywio yr adroddiad cadarnhaol a dderbyniwyd er gwaethaf yr amgylchedd heriol presennol.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin swyddogion ar adroddiad cadarnhaol. Soniodd am y diffyg eiddo ar gael i letya pobl sy'n datgan eu bod yn ddigartref ond dywedodd bod y Tîm Gwasanaethau Digartrefedd yn gwneud gwaith ardderchog o ystyried y cyfyngiadau yr oeddent yn eu hwynebu.

Cafodd yr argymhellion, fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin a'u heilio gan y Cynghorydd David Evans.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi adroddiad Archwilio Cymru ar Wasanaethau Digartrefedd Cyngor Sir y Fflint; a

(b) Cefnogi'r ymatebion awgrymedig i argymhellion Archwilio Cymru.

## 79. ADRODDIAD DIWEDDARU AR DDIGARTREFEDD A PHOBL SY'N CYSGU ALLAN A'R POLISI DIGARTREFEDD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) adroddiad i gynnig cipolwg ar ddigartrefedd a phobl sy’n cysgu allan ar gyfer 2023 a oedd yn cynnwys fersiwn ddrafft o’r Polisi Llety Digartrefedd er mwyn adolygu a chymeradwyo.

Darparodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal ddiweddariad manwl ar y Gwasanaeth Digartrefedd Statudol. Dywedodd fod dyletswyddau’r Awdurdod Lleol wedi’u hamlinellu yn Rhan 2 Deddf Tai Cymru 2014, o ran atal digartrefedd a rheoli digartrefedd pan oedd yn digwydd. Yn adran 6 yr adroddiad roedd gwybodaeth am y dyletswyddau o fewn y ddeddfwriaeth (Eich Helpu i Ddeall Deddf Tai Cymru 2014).

Mewn perthynas â chyllid, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal, er bod swm sylweddol o’r cyllid wedi cael ei ddarparu ar gyfer gweithgarwch atal drwy’r Grant Cymorth Tai, nid oedd modd ariannu gwasanaethau statudol drwy’r Grant Cymorth Tai. Felly, Cronfa'r Cyngor oedd prif ffynhonnell y cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau digartrefedd statudol.

Mae’r galw am wasanaethau yn parhau i fod yn uchel a chyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal at Atodiad 1 i’r adroddiad a oedd yn amlinellu data a oedd yn ymwneud â’r canlynol:-

- Unigolion sy’n Datgan eu Bod yn Ddigartref;
- Ymateb Brys Tu Allan i Oriau;
- Llety Digartrefedd; ac
- Ymateb Pobl sy’n Cysgu Allan

Darparodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal ddiweddariad manwl ar heriau’r farchnad dai, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd David Evans at y tabl a amlinellwyd yn Atodiad 1 yn dangos yr amserlen perygl o ddigartrefedd. Mewn perthynas â phobl sy’n cyflwyno eu hunain fel rhai ‘digartref ar y diwrnod’, gofynnodd a oedd y bobl hynny eisoes yn hysbys i’r Cyngor, er enghraifft, a oeddent wedi cysylltu gyda’r Cyngor o’r blaen ac yn awr wedi cyrraedd sefyllfa dai nad oedd yn gallu parhau. Cyfeiriodd hefyd at y tabl a oedd wedi’i amlinellu yn Atodiad 1 a oedd yn dangos y galwadau digartrefedd brys y tu allan i oriau a gofynnodd a oedd dadansoddiad wedi cael ei gynnal o pam yr oedd rhai misoedd yn waeth na’i gilydd .

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal bod y gwasanaeth yn gweithredu’n rhagweithiol gyda data ac yn gweithio gyda’r gwasanaeth TG i wella systemau a swyddogaethau adrodd. Roedd dadansoddiad pellach o ganran y bobl a oedd yn cyflwyno eu hunain fel rhai ‘digartref ar y diwrnod’ yn cael ei gynnal a fyddai’n cynorthwyo’r gwasanaeth yn y dyfodol. Mewn perthynas â’r data ar alwadau digartrefedd brys y tu allan i oriau, roedd canfyddiad y gallai tywydd poeth waethygu tensiynau o fewn cartrefi, ac roedd y hysbys bod adroddiadau o gam-drin domestig yn aml yn cynyddu yn ystod twrnameintiau chwaraeon, lle’r oedd cyfraddau yfed alcohol yn cynyddu hefyd. Roedd angen

dadansoddiad pellach o’r data hwn i gael gwell dealltwriaeth o’r amrywiadau mewn niferoedd yn ystod misoedd gwahanol.

Gwnaeth yr Aelod Cabinet sylw am y data a oedd yn ddefnyddiol ac wedi galluogi data cymharol gyda gweddill Cymru. Cytunodd bod y data deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru yn flaengar a dywedodd ei bod yn gadarnhaol i weld cynnydd yn y grant cymorth tai ond er mwyn cyflawni lefelau cymorth mor uchelgeisiol ac eang, dywedodd fod angen darparu adnoddau digonol i’r Cyngor, oherwydd bod pwysau yn parhau i fod ar y gyllideb gyffredinol.

Diolchodd y Cynghorydd Linda Thew i’r swyddogion am y gwaith yr oeddent yn ei wneud a oedd yn anodd oherwydd y diffyg cyllid gan Lywodraeth Cymru i oresgyn yr holl heriau. Fe wnaeth gais i Aelodau Lleol gael gwybod pan oedd eiddo yn cael eu prynu gan y Cyngor a phobl yn cael eu symud i wardiau er mwyn iddynt allu ymateb i unrhyw ymholiadau gan breswylwyr lleol. Gofynnodd hefyd a oedd yr £1.6m a oedd wedi cael ei gaffael fel rhan o’r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro yn cael ei ddefnyddio i brynu eiddo.

Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal drwy ddweud y byddai aelodau lleol yn cael eu hysbysu pan yr oedd llety yn cael ei gaffael i ddiwallu anghenion y gwasanaeth neu lle’r oedd gwaith datblygu neu waith dwys yn cael ei gynnal. Dywedodd bod yr £1.6m yn cael ei fuddsoddi mewn prynu sawl eiddo, yn cynnwys archwilio pryniant eiddo gan landlordiaid a oedd eisiau gwerthu eu heiddo er mwyn atal tenantiaid rhag dod yn ddigartref. Byddai rhai o’r eiddo a brynwyd yn mynd i’r Cyfrif Refeniw Tai, gydag eraill yn cael eu defnyddio fel llety dros dro.

<u>Atodiad 2 - Astudiaeth Achos Diwrnod ym Mywyd y Tîm Digartrefedd</u>

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal yr astudiaeth achos fel y dangosir yn Atodiad 2 i’r adroddiad.

<u>Atodiad 3 – Polisi Llety Digartrefedd</u>

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal y Polisi Llety Digartrefedd newydd fel y dangosir yn Atodiad 3 i’r adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Ted Palmer ynglŷn â’r cymhwysedd ar gyfer llety i bobl ddigartref, eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn ymwneud â chategorïau o bobl, nid y rheswm dros eu digartrefedd.

Cafodd yr argymhellion, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson a’u heilio gan y Cynghorydd Ted Palmer.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Nodi a chefnogi’r gwaith sy’n cael ei wneud gan y Gwasanaeth Tai ac Atal;

(b) Cymeradwyo fersiwn ddrafft y Polisi Llety Digartrefedd.

## 80. DIWEDDARIAD AM Y SYSTEM TREFNU ADNODDAU DEINAMIG

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth (Asedau Tai) yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg a diweddariad ar y meddalwedd System Cofrestru Adnoddau Deinamig, y newidiadau a wnaed i'r gwasanaeth yn ystod camau profi'r cyfnod peilot a'r mesurau newydd a roddwyd ar waith i wella cyfraddau bodlonrwydd cwsmeriaid cyffredinol o ran y gwasanaeth oedd yn cael ei ddarparu.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth bod y gwaith a oedd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad yn ategu ac yn cyd-fynd yn llwyr â'r gwaith oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd i wella'r cynnig ar-lein gan y gwasanaeth tai, i'w gwneud yn haws ac yn fwy syml i gwsmeriaid weld diffygion a rhoi gwybod am waith atgyweirio a chefnogi'r hyn mae cwsmeriaid ei eisiau – gwasanaeth apwyntiadau cyfleus i gwblhau gwaith. Roedd yr adroddiad hefyd yn canolbwyntio ar yr hyn a oedd wedi cael ei gyflawni hyd yma, yn ogystal ag amlinellu cam nesaf cynllun peilot y System Cofrestru Adnoddau Dynamig.

Roedd cyfarfodydd adolygu wedi cael eu cynnal gyda'r cynllunydd arweiniol a'r gweithredwyr sy'n gweithio ar y cynllun peilot ar hyn o bryd. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth bod hyn wedi rhoi cyfle i gael adborth ar feysydd a oedd wedi gweithio'n dda a meysydd a oedd angen gwelliannau pellach.

Croesawodd y Cynghorydd David Evans yr adroddiad a dywedodd y byddai'n ddifyr gweld sut y bydd cam nesaf y System Cofrestru Adnoddau Deinamig yn dod yn ei flaen. Gofynnodd a oedd y system hon ar gyfer y portffolio Tai yn unig neu os oedd modd i bortffolios eraill ddefnyddio'r system. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth bod y system wedi bod yn canolbwyntio ar y gwasanaeth atgyweiriadau a chynnal a chadw, gyda'r bwriad i gyflwyno apwyntiadau archwiliadau i'r system yn ddiweddarach. Dywedodd bod y portffolio Gwasanaethau Stryd yn meddu ar ei system ei hun ond byddai gweithdai / sesiynau briffio staff i ddangos y System Cofrestru Adnoddau Deinamig yn cael eu trefnu ar gyfer bob portffolio ar draws y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Linda Threw ynglŷn â chostau contractau, dywedodd yr Uwch Reolwr bod costau contractau wedi cael eu darparu mewn adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor ond y byddai'n cael y wybodaeth hon ac yn ei rhannu gyda'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r swyddogion am yr adroddiad a dywedodd bod hysbysu tenantiaid ynglŷn â phryd y byddai gweithwyr yn ymweld â'u cartrefi i wneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn welliant cadarnhaol i'r gwasanaeth.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor gael gweld sut yr oedd y System Cofrestru Adnoddau Deinamig yn gweithio ar ôl ei gwneud yn gwbl weithredol.

Cynigiodd y Cynghorydd Ted Palmer yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliodd y Cynghorydd David Evans y cynnig hwnnw.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi’r camau peilot a’r cam nesaf ym mhrofion y System Cofrestru Adnoddau Deinamig cyn i’r Cyngor newid i System Cofrestru Adnoddau Deinamig cwbl weithredol.

## 81. RHEOLI CARTREFI GWAG

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth (Asedau Tai) y ffigyrau a’r gweithgareddau allweddol wrth gyflawni’r cynllun gweithredu ar gartrefi gwag, fel y nodwyd yn y nodyn briffio.

Soniodd am nifer y tai gwag newydd a’r rhai a gwblhawyd, a dywedodd fod 33 eiddo wedi eu cwblhau yn barod i’w dyrannu. Amlinellodd hefyd y wybodaeth ganlynol, fel a gyflwynwyd yn y nodyn briffio:-

- Nifer yr eiddo mawr gwag
- Cyfanswm nifer yr eiddo gwag a oedd wedi gostwng i 227
- Perfformiad y contractwyr presennol
- Y prif resymau dros derfynu contractau

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Dave Hughes ar eiddo anodd eu gosod, awgrymodd y Rheolwr Gwasanaeth y dylid diwygio’r wybodaeth am gyfanswm yr unedau gwag mewn nodiadau briffio yn y dyfodol i ddangos faint ohonynt oedd yn rhai anodd eu gosod.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan y Cadeirydd ar ystyried cynnwys eiddo anodd eu gosod yn yr Adolygiad o Dai Gwarchod, cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth y byddai eiddo anodd eu gosod yn cael eu rhoi drwy’r matrics a gytunwyd i weld oes oedd modd eu gwella/ailwampio i gydymffurfio gyda Safon Ansawdd Tai Cymru.  Dywedodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) bod eiddo galw isel yn cael eu blaenoriaethu fel rhan o’r Adolygiad o Dai Gwarchod ac y byddai adroddiad cynnydd ar yr adolygiad yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cynghorydd David Evans, os oedd y galw am eiddo yn isel ac roedd arnynt angen mân welliannau, oni ddylai’r Cyngor fynd ati i gyflawni’r gwaith cyn gynted â phosibl er mwyn gallu dyrannu’r eiddo?  Dywedodd y Prif Swyddog fod y rhan fwyaf o’r eiddo galw isel yn llety gwarchod.  Un o’r dewisiadau i’w hystyried oedd ail-ddynodi’r eiddo ond er mwyn gwneud hyn roedd angen cynnal proses gymeradwyo.

Dywedodd y Cynghorydd Evans ei fod wedi adolygu’r data o’r 12 mis diwethaf ac, ar ôl rhoi ystyriaeth i’r eiddo a oedd yn anodd eu gosod, roedd nifer yr eiddo gwag wedi gostwng o 32 dros y 12 mis diwethaf.  Mynegodd bryderon y byddai’n cymryd oddeutu 7 mlynedd i leihau’r ôl-groniad o eiddo gwag ar y gyfradd bresennol. Gofynnodd beth oedd yn cael ei wneud i leihau’r nifer yn gynt a pha adnoddau ychwanegol oedd eu hangen i leihau’r ôl-groniad yn sylweddol. Soniodd y Rheolwr Gwasanaeth am yr angen i derfynu trefniadau gydag un o’r contractwr a’r posibilrwydd o benodi contractwr arall, ond fe amlinellodd yr angen i sicrhau bod digon o staff ar gael oherwydd dim ond nifer penodol o bobl oedd yn gallu rheoli ac archwilio’r gwaith a oedd yn cael ei gyflawni.  Cytunodd bod nifer yr eiddo gwag yn uchel ond roedd yn disgwyl y byddai’r nifer yn gostwng i lai na

200 erbyn yr haf a dywedodd bod y gwariant ar hyn o bryd rhwng £12,000 a £15,000 ar bob eiddo i sicrhau eu bod yn cydymffurfio cyn iddynt gael eu gosod.

Mewn ymateb i bryderon pellach a godwyd gan y Cynghorydd Evans, dywedodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) bod contractwyr yn cael eu monitro'n agos a'i bod yn bosibl i ychwanegu contractwyr ychwanegol o'r fframwaith pan yn ymarferol i wneud hynny. Roedd ymrwymiad i ddod â 40/50 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd y mis ac roedd 120 eiddo yn derbyn sylw ar hyn o bryd. Gobeithiwyd y byddai gostyngiad sylweddol erbyn mis Mehefin.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Ted Palmer ynglŷn â sawl eiddo oedd yn derbyn sylw, eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth bod 90 eiddo wedi cael eu dyrannu i gontractwyr gyda 30 wedi cael eu dyrannu i Sefydliad Llafur Uniongyrchol y Cyngor. Dywedodd nad oedd y ffigyrau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn adlewyrchu'r amser a oedd yn cael ei dreulio yn yr eiddo a'r angen i flaenoriaethu eiddo er mwyn iddynt fod ar gael i'r Tîm Digartrefedd.

Gwnaeth yr Aelod Cabinet sylw am nifer yr eiddo a oedd yn derbyn sylw, a dywedodd fod hyn yn ddigynsail o ran graddfa a'i fod yn hyderus y byddai Aelodau'n gweld yr ôl-groniad yn lleihau.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Geoff Collett ar reoli contractwyr, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth bod y contractwyr wedi cael eu penodi drwy'r fframwaith a'u bod yn dod i arfer â manylion a safon gwaith y Cyngor. Dywedodd fod safon y gwaith wedi bod yn uchel iawn ond os oedd y Cyngor yn credu nad oedd targedau yn cael eu cyrraedd, roedd dewisiadau i ddefnyddio contractwyr eraill o'r fframwaith.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r diweddariad.

## 82. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.49 am)

..................................................

**Y Cadeirydd**